**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-RE-3755-21

Elin Jones, AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

25 Tachwedd 2021

Annwyl Elin

**RHEOLIADAU PRISIO AR GYFER ARDRETHU (CYMRU) (CORONAFEIRWS) (DIRYMU) 2021**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu bod posibilrwydd y daw'r offeryn statudol hwn i rym lai nag 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Gwneir yr offeryn statudol hwn o baragraff 2(8) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Bydd yn dod i rym unwaith y rhoddir y Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil) ac mae risg y bydd hynny'n digwydd o fewn 21 diwrnod i osod yr offeryn statudol hwn. Y rhesymeg yw rhoi eglurder o ran y gyfraith gan y byddai darpariaethau yn y Bil yn disodli *Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021* (y Rheoliadau presennol) a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol wedi'u hamgáu er gwybodaeth i chi.

Os daw i rym, bydd yr offeryn statudol hwn yn dirymu'r Rheoliadau presennol a roddwyd ar waith i ddiogelu cyllid cyhoeddus tra bo'r Bil yn mynd drwy Senedd y DU. Os caiff y Bil ei basio, bydd darpariaethau yn y Bil yn disodli'r Rheoliadau presennol ac, er mwyn eglurder, mae angen dirymu'r Rheoliadau presennol. Bydd y Rheoliadau presennol yn parhau i fod ar waith tra bydd y Bil yn mynd yn rhagddo ac os na fydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

Cafodd gwelliannau i'r Bil, yn ymwneud â Chymru, eu gosod ar 9 Medi a gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 21 Medi. Cafodd hwnnw ei ystyried gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a gyflwynodd adroddiad ar 17 Tachwedd a 18 Tachwedd yn y drefn honno. Cynhaliais ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ar 23 Tachwedd, a chytunodd y Senedd y dylai darpariaethau sy'n gymwys i Gymru gael eu cynnwys yn y Bil.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government